Dyletswyddi – mis Mawrth
Cyhoeddi : Aled Wyn
Croesawu/te a choffi: Ion

capelsalem.org
SALEM

Casgliad hen stamplau yn y cyntedd

CYHOEDDIADAU MIS MAWRTH

Oedfaon y Sul: Am 10:30 y bore a 6:00 yr hwyr.

Ysgol Sul yn y bore wedi i'r plant a'r ifanc gyfrannu i rannau arweiniol yr Oedfa foreol.

Pob dydd Sul byddwn yn meddwl am eglwys arall (**) o fewn ein henaduriaeth: gofynnir i chi gweddïo'r canlynol: ***"Arglwydd Da, llawenhawn yn ein haelodaeth o'th Eglwys di sy'n gymdeithas fyd-eang dy bobl. Cofiwn yn arbennig heddiw eglwys *……. o fewn ein Henaduriaeth ni. Cyflwynwn hi a'i Swyddogion i'th ofal a'th arweiniad gan ofyn i Ti barhau i'w hysgogi a'i chynnal yn dy waith. Clyma ni'n un yn dy fwriadau sanctaidd, Amen."***

Dyw Evan ddim yn gweithio ar ddydd Iau.

Felly, plîs, peidiwch â chysylltu â fe ar ddydd Iau.

Mawrth 1af	**Bore a Nos: Parch.T. Evan Morgan – ein Bugail** *Bedydd Guto Huw - mab Gareth ac Awen* **Gwasanaeth Gŵyl Dewi gyda chyfraniadau gan yr Ysgol Sul.** ***"Cinio bach" yn y festri ar ôl yr oedfa - dewch â phlatiaid o fwyd gyda chi i gyfrannu at y wledd!!*** **Gwasanaeth cymun yn y bore**	Blodau: Pat a Gerallt	Casglu: Ysgol Sul	Te a choffi: Bois Grwp Canu'r Capel
8fed ** Gorffwysfa, Tawe/Nedd	**Bore a Nos: Parch.D.Haydn Thomas**	Blaenoriaid		Pobl Ifainc
15fed ** Carmel, Pentredwr	**Bore a Nos: Parch.T. Evan Morgan – ein Bugail** **Bydd cyfraniad gan y grŵp canu yn oedfa'r bore**	Dylan a Betsan, Manon a Madog		Tîm Criced
22ain ** Capel y Parc, Cwmparc	**Bore: Parch.T. Evan Morgan – ein Bugail** *Bedydd Alys Grug - merch Heledd a Mark* **Nos: Gwasanaeth dan arweiniad y grŵp Digon o Ysgol Plasmawr. Edrychwn mlaen yn fawr at hyn gan ofyn am eich presenoldeb yn fawr i gefnogi. Mae Digon wedi cael sylw cenedlaethol a rhyngwladol am ei gwaith arloesol a hanfodol yn erbyn bwlio a bwlio homoffobaidd yn benodol. Mae'r grŵp wedi cael ei enwebu am wobr Dewi Sant.**			Elsbeth a'l chriw
29ain ** Hermon, Cilffriw	**Bore: Michael Jones** **Dim Ysgol Sul** **Nos: Parch.Dafydd Edwards**	Y Bugail	Blaenoriaid	Ion
Ebrill 3ydd	**10:00am Cymun y Groglith**			
Ebrill 5ed ** Salem, Bonymaen **(Sul y Pasg)**	**Bore yn unig: Parch.T. Evan Morgan – ein Bugail** **Gwasanaeth cymun yn y bore** **Dim Ysgol Sul, ond mae croeso i blant fod yn bresennol – bydd stori plant arbennig gan Evan !**	Y Bugail	Blaenoriaid	Glyn a Carys

Cyfarfodydd yn ystod yr Wythnos

Nos Fawrth	**3ydd**	**7:00pm**	**Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan**
Nos Fawrth	**3ydd**	**8:00pm**	**Clwb Llyfrau Salem yn nhŷ Rhian Griffiths: "To Have and Have Not" gan Ernest Hemingway - llyfr o ddewisiad Elin.**
Bore Mercher	**4ydd**	**9:45am**	**Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin**
Nos Fercher	**4ydd**	**7:30pm**	**Swper Gŵyl Ddewi Salem - yn Elgano's, Heol y Gadeirlan – gwelir y bwydlen a rhestr yn y cyntedd; gofynnir yn garedig am eich enwau cyn 1af Mawrth. Bydd lle i 40. RHAID talu o flaen llaw – 1 cwrs - £10.00, 2 gwrs - £14.00, 3 chwrs - £17.00; bydd Mair a Gwyneth yn derbyn eich arian! Adloniant gan ein telynores ni, Ffion Rhisiart!**
Dydd Gwener	**6ed**	**2.30pm**	**Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd, yn City Church, URC, Windsor Place (Ebeneser)**
Dydd Sul	**8fed**	**2:30pm**	**Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Ais – Tîm Enyd**
Nos Fawrth	**10fed**	**7:00pm**	**Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan**
Bore Mercher	**11eg**	**11:00am**	**Cylch Trafod Beiblaidd yn ystafell Edwin**
Nos Iau	**12fed**	**6:00-7:00pm**	**Adran yr Urdd, Salem, oed cynradd, yn y festri/Ystafell Edwin**
Nos Iau	**12fed**	**7.30pm**	**Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Myfyrdod y Grawys yn Bethlehem, Gwaelod y Garth. Siaradwr – Parch. Glyn Tudwal Jones**
Dydd Gwener	**13eg**	**11:00am - 12:00**	**Clwb Coffi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb sy'n rhydd yn ystod y bore i ymuno â ni am goffi a sgwrs a chwmnïaeth.**
Bore Mercher	**18fed**	**9:45am**	**Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin**
Nos Wener	**20fed**	**7:30pm**	**Clwb Pobl Ifainc – I'w drefnu**
Bore Mercher	**25ain**	**11:00am**	**Cylch Trafod Beiblaidd yn ystafell Edwin**
Nos Iau	**26ain**	**6:00-7:00pm**	**Adran yr Urdd, Salem, oed cynradd, yn y festri/Ystafell Edwin**
Nos Iau	**26ain**	**7.30pm**	**Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Myfyrdod y Grawys yn Minny Street.**

Rhaghysbysebion

Mis Ebrill			
Dydd Sul	**5ed**	**2:30pm**	**Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Ais – Tîm Gareth**
Nos Fawrth	**14eg**	**8:00pm**	**Clwb Llyfrau Salem: llyfr o ddewisiad Siân**